*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro’r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 10FED CHWEFROR, 2021** am **5.00 PM.**

| **AGENDA** | **Tudalennau** |
|---|---|
| **9.1. DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG** | |
| **<u>Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro’r Gwasanaethau Llywodraethol</u>** | **3 - 4** |

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**

tudalen wag

**CYFARFOD Y CYNGOR – 10 CHWEFROR, 2021**

**DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG SYDD WEDI'I NODI YN EITEM 9.A O AGENDA'R CYNGOR**

Yn unol â Rheol Weithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau'r:- Cynghorwyr P. Jarman, H. Fychan, D. Grehan, E. Griffiths, J. Williams, A. Cox, S. Rees-Owen, M. Weaver, G. Davies, E. Webster, A. Chapman, S. Evans, J. Cullwick, J. Davies, K. Morgan, L. Jones ac E. Stephens:-

Mae effeithiau pandemig COVID-19 ar gymunedau, busnesau a theuluoedd ledled y wlad yn sylweddol ac fe'u trafodwyd mewn nifer o fforymau ac ar amrywiaeth o lwyfannau. Mae miliynau o bobl wedi dioddef colled ariannol ar ôl colli swyddi neu gwymp o ran masnach, tra bod cyfnodau hir o gyfyngiadau wedi'u gosod ar eu bywydau beunyddiol.

Ar ddechrau'r pandemig, honnodd y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys y bydden nhw'n "rhoi eu breichiau o gwmpas" pawb yn ystod yr argyfwng cenedlaethol, a chyflwynon nhw nifer o becynnau cymorth y wladwriaeth. Un o'r mesurau yma oedd cynnydd o £20 yr wythnos i swm y taliad Credyd Cynhwysol, a oedd o fudd i bron i chwe miliwn o hawlwyr ledled y DU sydd naill ai ar incwm isel neu'n ddi-waith. Rhoddodd hyn gymorth sylweddol i'r rhai yr oedd angen y gefnogaeth fwyaf yn ystod y cyfnod digynsail yma, gydag elusennau a sefydliadau yn galw'r codiad yn "achubiaeth" a'r rhai a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol yn dweud ei fod yn golygu bod modd iddyn nhw gael "prin digon, yn hytrach na dim."

Nawr, bron i flwyddyn yn ddiweddarach - gyda'r pandemig yn dal i daflu cysgod dros ein bywydau beunyddiol, mae sôn bod Llywodraeth Geidwadol y DU yn adolygu'r cynnydd, ac mae honiad bod y Prif Weinidog yn bwriadu ei ddileu. Mae'r posibilrwydd o dynnu cymorth o'r fath yn ôl yn dangos unwaith eto nad yw Llywodraeth San Steffan yn ystyried teuluoedd yn flaenoriaeth, a hynny ar adeg pan mae pethau wedi gwaethygu i lawer, gyda rhagor o bobl yn colli eu swyddi bob dydd o ganlyniad i'r pandemig.

Yn Rhondda Cynon Taf yn unig, mae tua 21,000 o bobl (ym mis Rhagfyr 2020) yn hawlio Credyd Cynhwysol a bydd cael gwared ar y taliad wythnosol yn ergyd i lawer yn ein cymunedau ar adeg pan mae cefnogaeth y wladwriaeth mor hanfodol.

Mae'r Cyngor yma'n nodi:

1. Bod y taliad ychwanegol o £20 o Gredyd Cynhwysol yr wythnos yn hwb hanfodol i filiynau, ac na ddylid ei ddileu {Dileu: ~~yn ystod y pandemig~~}. Byddai hyn yn cael yr effaith galetaf ar gymunedau fel Rhondda Cynon Taf

ac yn penderfynu:

1. Bydd Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog cyn cyhoeddi'r gyllideb ar 3 Mawrth i amlinellu gwrthwynebiad y Cyngor hwn i'r bwriad o gael gwared ar y cynnydd o £20 yr wythnos mewn taliadau Credyd Cynhwysol {Dileu: ~~tra bo'r pandemig yn parhau~~}.

**Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:**

Mae effeithiau pandemig COVID-19 ar gymunedau, busnesau a theuluoedd ledled y wlad yn sylweddol ac fe'u trafodwyd mewn nifer o fforymau ac ar amrywiaeth o lwyfannau. Mae miliynau o bobl wedi dioddef colled ariannol ar ôl colli swyddi neu gwymp o ran masnach, tra bod cyfnodau hir o gyfyngiadau wedi'u gosod ar eu bywydau beunyddiol.

Ar ddechrau'r pandemig, honnodd y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys y bydden nhw'n “rhoi eu breichiau o gwmpas” pawb yn ystod yr argyfwng cenedlaethol, a chyflwynon nhw nifer o becynnau cymorth y wladwriaeth. Un o'r mesurau yma oedd cynnydd o £20 yr wythnos i swm y taliad Credyd Cynhwysol, a oedd o fudd i bron i chwe miliwn o hawlwyr ledled y DU sydd naill ai ar incwm isel neu'n ddi-waith. Rhoddodd hyn gymorth sylweddol i'r rhai yr oedd angen y gefnogaeth fwyaf yn ystod y cyfnod digynsail yma, gydag elusennau a sefydliadau yn galw'r codiad yn “achubiaeth” a'r rhai a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol yn dweud ei fod yn golygu bod modd iddyn nhw gael "prin digon, yn hytrach na dim."

Nawr, bron i flwyddyn yn ddiweddarach - gyda'r pandemig yn dal i daflu cysgod dros ein bywydau beunyddiol, mae sôn bod Llywodraeth Geidwadol y DU yn adolygu'r cynnydd, ac mae honiad bod y Prif Weinidog yn bwriadu ei ddileu. Mae'r posibilrwydd o dynnu cymorth o'r fath yn ôl yn dangos unwaith eto nad yw Llywodraeth San Steffan yn ystyried teuluoedd yn flaenoriaeth, a hynny ar adeg pan mae pethau wedi gwaethygu i lawer, gyda rhagor o bobl yn colli eu swyddi bob dydd o ganlyniad i'r pandemig.

Yn Rhondda Cynon Taf yn unig, mae tua 21,000 o bobl (ym mis Rhagfyr 2020) yn hawlio Credyd Cynhwysol a bydd cael gwared ar y taliad wythnosol yn ergyd i lawer yn ein cymunedau ar adeg pan mae cefnogaeth y wladwriaeth mor hanfodol.

Mae'r Cyngor yma'n nodi:

1. Bod y taliad ychwanegol o £20 o Gredyd Cynhwysol yr wythnos yn hwb hanfodol i filiynau, ac na ddylid ei ddileu. Byddai hyn yn cael yr effaith galetaf ar gymunedau fel Rhondda Cynon Taf

ac yn penderfynu:

2. Bydd Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog cyn cyhoeddi'r gyllideb ar 3 Mawrth i amlinellu gwrthwynebiad y Cyngor hwn i'r bwriad o gael gwared ar y cynnydd o £20 yr wythnos mewn taliadau Credyd Cynhwysol.